OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1215

# Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

## RHAN 3

## CARCASAU BUCHOL

**Cymhwyso'r Rheoliadau hyn at weithredwyr buchol ar raddfa fach**

**6.**—(1) Nid yw'n ofynnol i weithredwr buchol ar raddfa fach ddosbarthu carcasau buchol.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr buchol ar raddfa fach nad yw'n dosbarthu carcasau buchol.

(3) Ond, os bydd gweithredwr buchol ar raddfa fach yn dewis dosbarthu carcasau buchol, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r gweithredwr hwnnw ac mewn perthynas â dosbarthu'r carcasau hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweithredwr buchol ar raddfa fach" yw gweithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yn cael eu cigydda bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(5) Ni fernir bod unrhyw weithredwr buchol ar raddfa fach yr oedd yn ofynnol iddo, nes i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ddosbarthu carcasau buchol o dan Reoliadau 2011 wedi dewis gwneud hynny at ddibenion paragraff (3) am y rheswm hwnnw yn unig.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau moch, os oes moch hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.